

# Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau



## Crynodeb

Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i sicrhau eich bod yn rhoi presgripsiynau'n ddiogel. Maent yn eich atgoffa bod rhaid i chi, lle bo'n bosibl, osgoi presgripsiynu ar eich cyfer chi eich hun neu'r rhai sy'n agos atoch chi. Maent yn ymdrin â'r hyn y mae angen i chi ei ystyried wrth roi presgripsiynau rheolaidd, presgripsiynu cyffuriau rheoledig neu rannu cyfrifoldeb eich claf â chydweithiwr.

Mae safonau arfer da yn berthnasol i bob meddyg sy'n gweithio ym mhob lleoliad. Dyna pam mae cyngor ar bresgripsiynu wyneb yn wyneb ac o bell wedi'i integreiddio ymhob rhan o'r canllawiau. Rydym hefyd yn nodi pethau i'w hystyried wrth roi presgripsiynau i gleifion sydd dramor neu wrth roi meddyginiaethau didrwydded ar bresgripsiwn.

# Arfer da wrth gynnig, presgripsiynu, darparu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau.

## Safonau proffesiynol: Canllawiau manylach

### Cyhoeddwyd y canllawiau hyn ar 18 Chwefror 2021.

Daeth y canllawiau hyn i rym ar 5 Ebrill 2021 a chawsant eu diweddarau ar 15 Mawrth 2022. Roedd hyn yn cynnwys diweddarau'r adran 'Rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau a digwyddiadau'n ymwneud â dyfeisiau meddygol a digwyddiadau eraill yn ymwneud â diogelwch cleifion', i gyfeirio at y trefniadau a'r derminoleg ddiweddaraf ar gyfer rhoi gwybod am ddiwyddiadau niweidiol a damweiniau a fu bron â digwydd ledled y DU. Roeddem hefyd wedi diweddarau ffeithiau yn yr adran 'Presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded', i roi eglurder ynglŷn â phresgripsiynu meddyginiaethau a gâi eu cyflenwi o dan Lwybr Cymeradwy MHRA Gogledd Iwerddon (NIMAR), sydd wedi'u dileu ers hynny.

Y tro mwyaf diweddar i'r canllawiau gael eu diweddarau oedd ar 13 Rhagfyr 2024 pan ddechreuodd y GMC reoleiddio cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia.

## Gwybodaeth am y canllawiau hyn

1. Yn *Arfer meddygol da* (2024)<sup>1</sup> rydym yn dweud:

2. Rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysedd.

4. Rhaid i chi ddilyn y gyfraith, ein canllawiau ar safonau proffesiynol, a rheoliadau eraill sy'n berthnasol i'ch gwaith.

7. Wrth ddarparu gofal clinigol, rhaid i chi:

d. cynnig, darparu neu bresgripsiynu cyffuriau neu driniaeth (gan gynnwys presgripsiynau rheolaidd) dim ond pan fydd gennych chi wybodaeth ddigonol am iechyd y claf a phan fyddwch yn fodlon y bydd y cyffuriau neu'r driniaeth yn bodloni ei anghenion

e. cynnig, darparu neu bresgripsiynu triniaeth effeithiol yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael

14. Rhaid i chi wneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael i chi, a darparu'r gwasanaeth gorau posibl, gan ystyried eich cyfrifoldebau i gleifion a'r boblogaeth ehangach.

39. Dylech ofyn i gleifion am unrhyw ofal neu driniaeth arall maen nhw'n ei chael – gan gynnwys meddyginiaethau dros y cownter – a gwneud yn siŵr bod unrhyw ofal neu driniaeth rydych chi'n ei gynnig, ei ddarparu neu ei roi ar bresgripsiwn yn gydnaws.

69. Rhaid i chi sicrhau bod cofnodion ffurfiol o'ch gwaith (gan gynnwys cofnodion cleifion) yn glir, yn fanwl, yn gyfoes ac yn ddarllenadwy.

**70.** Dylech weithredu mewn modd synhwyrol o ran lefel y manylder, ond fel arfer dylai cofnodion cleifion gynnwys:

- a. canfyddiadau clinigol perthnasol
  - b. cyffuriau, ymchwiliadau neu driniaethau a gynigiwyd, a ddarparwyd neu a bresgripsiwyd
  - c. y wybodaeth a rannwyd gyda chleifion
  - d. pryderon neu ddewisiadau a fynegwyd gan y claf, a allai fod yn berthnasol i'w ofal parhaus, ac a gafodd y rhain eu trafod
  - e. gwybodaeth am unrhyw addasiadau rhesymol a dewisiadau o ran cymorth cyfathrebu
  - f. penderfyniadau a wnaethpwyd, camau gweithredu y cytunwyd arnyn nhw (gan gynnwys penderfyniadau i beidio â gwneud unrhyw beth) a phryd y dylai/a ddylai penderfyniadau gael eu hadolygu
  - g. pwy sy'n creu'r cofnod a phryd.
2. Mae'r canllawiau hyn, sy'n rhan o'r safonau proffesiynol, yn rhoi cyngor manylach ar sut i gydymffurfio â'r egwyddorion hyn wrth gynnig, presgripsiynu, neu ddarparu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol. Mae'r canllawiau'n berthnasol i bob math o weithgarwch sy'n ymwneud â phresgripsiynu, ym mha bynnag leoliad y mae'r cysylltiad â'r claf yn digwydd, gan gynnwys ymgynghoriadau o bell.

## Beth mae'r canllawiau hyn yn ei gynnwys?

3. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin ag amrywiaeth o weithgareddau cysylltiedig sy'n ymwneud â phresgripsiynu ac yn ei gefnogi, yn ogystal â'r presgripsiynu ei hun. O blith ein hunigolion cofrestredig, dim ond meddygon sydd â'r awdurdod i lofnodi presgripsiynau, ond mae'r canllawiau'n cwmpasu ystod ehangach o weithgareddau cysylltiedig, gan gynnwys:
- a) Cyflenwi meddyginiaethau presgripsiwn-yn-unig
  - b) cynnig meddyginiaethau presgripsiwn-yn-unig i bresgripsiynydd awdurdodedig eu hadolygu a'u llofnodi (gweler paragraffau 4 a 75-79)
  - c) darparu meddyginiaethau presgripsiwn-yn-unig i gleifion ar ôl i'r rhain gael eu hadolygu a'u llofnodi gan bresgripsiynydd awdurdodedig
  - d) argymell neu bresgripsiynu meddyginiaethau, dyfeisiau, gorchuddion a gweithgareddau eraill, fel ymarfer corff
  - e) cynghori cleifion ynghylch prynu meddyginiaethau dros y cownter a meddyginiaethau eraill
  - f) rhoi gwybodaeth ysgrifenedig (presgripsiynau gwybodaeth) neu gyngor i gleifion

4. Disgwylir i'r holl weithwyr proffesiynol rydym yn eu rheoleiddio ddilyn y canllawiau hyn i'r graddau eu bod yn berthnasol i'w hymarfer. Pa elfen bynnag o weithgarwch presgripsiynu rydych chi'n ymwneud â hi, chi sy'n gyfrifol am eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd, a'r camau rydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod presgripsiynau'n briodol, yn angenrheidiol ac yn ddiogel (gweler paragraffau 75-79 isod ar rannu gofal).
5. Mae presgripsiynu'n digwydd mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan gynnwys wyneb yn wyneb ac o bell gan ddefnyddio'r ffôn, ar-lein a chyswllt fideo neu lwyfannau technolegol eraill. Os nad ydych chi'n gallu bodloni'r safonau a nodir yn y canllawiau hyn drwy'r dull ymgynghori rydych chi'n ei ddefnyddio, dylech gynnig dewis arall os yw'n bosibl, neu gyfeirio at wasanaethau eraill. Os ydych chi'n meddwl bod systemau, polisïau neu weithdrefnau yn rhoi cleifion mewn perygl o niwed, neu y gallent wneud hynny, rhaid i chi ddilyn y canllawiau yn 'Codi a gweithredu ar bryderon am ddiogelwch cleifion'.<sup>3</sup>
6. Mae'r safonau proffesiynol yn disgrifio arfer da, ac ni fydd pob achos o wro oddi wrthynt yn cael ei ystyried yn achos difrifol. Rhaid i chi ddefnyddio eich barn broffesiynol i weithredu'r safonau yn eich gwaith o ddydd i ddydd. Os byddwch yn gwneud hyn, yn gweithredu'n ddidwyll ac er budd cleifion, byddwch yn gallu egluro a chyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd. Rydym yn sôn mwy am farn broffesiynol, a sut mae'r safonau proffesiynol yn berthnasol i'n prosesau addasrwydd i ymarfer, arfarnu ac ailddilysu ar ddechrau *Arfer meddygol da*.

## Cadw'n gyfredol a sicrhau presgripsiynu diogel

7. Fel yr amlinellir yn *Arfer meddygol da*, rhaid i chi gydnabod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysedd, a dim ond o dan y lefel o oruchwyliaeth sy'n briodol i'ch rôl, eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch hyfforddiant, a'r dasg rydych chi'n ei chyflawni, y cewch chi ymarfer. Rhaid i chi gadw eich gwybodaeth a'ch sgiliau yn gyfredol. Rhaid i chi gynnal a datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n berthnasol i'ch rôl a'ch ymarfer mewn:
  - a. ffarmacoleg a therapiwteg
  - b. presgripsiynu a rheoli meddyginiaethau
  - c. unrhyw dechnoleg neu brosesau rydych chi'n eu defnyddio i bresgripsiynu, er enghraifft drwy ymgynghori o bell.
8. Dylech ddefnyddio systemau electronig a systemau eraill sy'n gallu gwella diogelwch eich gweithgarwch presgripsiynu, er enghraifft drwy dynnu sylw at ryngweithiadau ac alergeddau a thrwy sicrhau cysondeb a chydawnsedd meddyginiaethau sy'n cael eu presgripsiynu, eu cyflenwi a'u rhoi.
9. Mae'r [Diweddariad ar Ddiogelwch Cyffuriau](#) a'r [System Rhybuddio Ganolog](#) gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) yn

darparu gwybodaeth a chyngor i gefnogi defnydd mwy diogel o feddyginiaethau sy'n berthnasol i'ch ymarfer ac yn rhoi gwybod i chi am wybodaeth ddiogelwch am feddyginiaethau rydych yn eu rhoi ar bresgripsiwn.

10. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn dwyn ynghyd dystiolaeth gan amrywiaeth o sefydliadau ar ddefnyddio meddyginiaethau'n ddiogel, yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae hefyd yn cyhoeddi ystod o [gynhyrchion](#) i'ch helpu i wella diogelwch, yn ogystal ag effeithiolrwydd clinigol ac effeithiolrwydd cost eich presgripsiynu. Mae'r [Compendiwm Meddyginiaethau](#) electronig yn cynnwys Crynodebau o Nodweddion Cynnyrch a Thafenni Gwybodaeth Cleifion (PIL).
11. Os ydych yn ansicr am ryngweithiadau neu agweddau eraill ar ragnodi a rheoli meddyginiaethau, dylech ofyn am gyngor gan eich goruchwyliwr a/neu gydweithwyr profiadol eraill, yn cynnwys fferyllwyr, cynghorwyr presgripsiynu a ffarmacolegwyr clinigol.
12. Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r canllawiau yn [Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain \(BNF\)](#) a [Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain ar gyfer Plant \(BNFC\)](#), sy'n cynnwys gwybodaeth hanfodol i'ch helpu i bresgripsiynu, monitro, cyflenwi a rhoi meddyginiaethau.
13. Dylech ddilyn y cyngor yn y BNF ar ysgrifennu presgripsiynau a sicrhau bod eich presgripsiynau a'ch archebion yn glir, yn unol â'r gofynion statudol perthnasol. Dylech hefyd wneud yn siŵr eich bod yn cynnwys eich enw yn glir.<sup>4</sup> Hefyd, dylech ystyried cynnwys arwyddion clinigol<sup>5</sup> ar eich presgripsiynau.
14. Dylech ystyried y canllawiau clinigol a gyhoeddwyd gan:
  - a. [Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal \(NICE\)](#) (England)
  - b. [Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd](#) (Gogledd Iwerddon)
  - c. Healthcare Improvement Scotland (yn cynnwys y [Scottish Medicines Consortium a'r Scottish Intercollegiate Guidelines Network](#)) (yr Alban)
  - d. [Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru](#) (Cymru)
  - e. colegau brenhinol meddygol a ffynonellau awdurdodol eraill canllawiau clinigol i arbenigeddau penodol.
15. Dylech fod yn ofalus ynghylch defnyddio dyfeisiau meddygol at ddibenion nad oeddent wedi'u bwriadu ar eu cyfer.
16. Dylech wneud yn siŵr bod unrhyw un rydych chi'n dirprwyo iddo'r cyfrifoldeb i weinyddu neu roi meddyginiaethau yn gymwys i wneud yr hyn rydych chi'n gofyn amdano.<sup>6</sup> Gellir cael cyngor ar hyfforddiant ar gyfer staff cymorth gweinyddu gan y [Cyngor Fferyllol Cyffredinol](#) a [Chymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon](#) (PSNI).
17. Lle bo'n berthnasol, os nad ydych chi'n dymuno presgripsiynu, bod yn rhan o'r broses o wneud cynigion ar gyfer presgripsiynu, neu ddarparu meddyginiaethau neu driniaethau oherwydd gwrthwynebiad cydwybodol, dylech ddilyn ein canllawiau esboniadol ar ['Gredau personol ac ymarfer meddygol'](#).
18. Ni ddylech fod â rhan yn hysbysebu meddyginiaethau presgripsiwn-yn-unig neu

ddidrwydded yn anghyfreithlon i'r cyhoedd drwy bresgripsiynu drwy wefannau sy'n torri rheoliadau hysbysebu.<sup>7</sup>

## Penderfynu a yw'n ddiogel cynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaethau, triniaethau a dyfeisiau

- 19.** Dim ond os oes gennych wybodaeth ddigonol am iechyd y claf y dylech gynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaethau, triniaethau a dyfeisiau, a'ch bod yn fodlon bod y meddyginiaethau'n diwallu anghenion y claf (gweler GMP, paragraffau 6-7). Rhaid i chi ystyried:
- a) addasrwydd y dull ymgynghori rydych yn ei ddefnyddio, er enghraifft wyneb yn wyneb neu o bell, gan ystyried unrhyw angen am archwiliad corfforol neu asesiadau eraill (gweler paragraffau 20 i 25)
  - b) a oes gennych ddigon o wybodaeth i bresgripsiynu'n ddiogel, er enghraifft os oes gennych fynediad at gofnodion meddygol y claf a'ch bod yn gallu gwirio gwybodaeth berthnasol (gweler 26 i 32)
  - c) a allwch sefydlu deialog ddwy ffordd, gwneud asesiad digonol o anghenion y claf a chael cydsyniad (gweler paragraffau 33 i 37)
  - d) a allwch rannu gwybodaeth yn briodol ar ôl cyfnod o ofal (gweler paragraffau 52 i 57).

## A yw'r dull ymgynghori yn diwallu anghenion unigol y claf ac yn cefnogi gofal diogel?

- 20.** Efallai y byddai'n well gan gleifion gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd wyneb yn wyneb neu drwy ymgynghoriadau o bell dros y ffôn, drwy gyswllt fideo neu ar-lein, yn dibynnu ar eu hanghenion a'u hamgylchiadau unigol.<sup>8</sup> Pan fydd opsiynau gwahanol ar gael, a phan fydd hynny o fewn eich pŵer, dylech gytuno gyda'r claf ar ba dull ymgynghori sydd fwyaf addas iddo.
- 21.** Mae'r amgylchiadau lle gallai ymgynghoriad wyneb yn wyneb fod yn fwy priodol nag ymgynghoriad o bell yn cynnwys:
- a. os ydych yn ansicr ynghylch gallu claf i benderfynu ynghylch triniaeth (gweler paragraffau 40 i 43)
  - b. mae angen i chi archwilio'r claf yn gorfforol
  - c. nid chi yw gweithiwr meddygol proffesiynol arferol y claf ac nid yw wedi rhoi caniatâd i chi rannu ei wybodaeth â'i bresgripsiynydd rheolaidd; mae hyn yn arbennig o bwysig os bydd angen dilyn hynt y driniaeth ymhellach neu ei monitro, neu os ydych yn cynnig neu'n presgripsiynu meddyginiaethau lle mae angen mesurau diogelu ychwanegol (gweler paragraffau 58 i 65)
  - d. rydych yn pryderu nad oes gan glaf le diogel a chyfrinachol i gael gofal iechyd o

bell , er enghraifft oherwydd cam-drin domestig

- e. rydych chi'n poeni efallai na fydd claf yn gallu gwneud penderfyniad o'i wirfodd oherwydd ei fod o dan bwysau gan eraill (gweler paragraffau 69 i 75 o [Penderfyniad a chydysyniad](#)).

**22.** Os nad chi yw gweithiwr meddygol proffesiynol arferol y claf, dylech:

- a. dweud wrth y claf beth yw eich enw, eich rôl ac, os ydych ar-lein, eich rhif cofrestru GMC
- b. esbonio sut mae'r ymgynghoriad yn mynd i weithio a beth y dylai ei wneud os oes ganddo unrhyw bryderon neu gwestiynau
- c. dilyn y cyngor ym mharagraffau 26 i 32 a 52 i 57 ar rannu gwybodaeth.

**23.** Cyn i chi gynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaethau, triniaeth neu ddyfeisiau, rhaid i chi fod yn fodlon eich bod yn gallu gwneud asesiad digonol, sefydlu deialog a chael caniatâd y claf drwy'r dull ymgynghori rydych chi'n ei ddefnyddio (gweler paragraffau 33 i 43).

**24.** Rhaid i chi hefyd ystyried ac ymateb i anghenion cyfathrebu'r claf a gwneud addasiadau rhesymol i'ch ymarfer, lle bo angen, er mwyn iddo allu cael gofal sy'n diwallu ei anghenion.<sup>9</sup>

**25.** Rhaid i chi gynnal archwiliad corfforol o gleifion cyn rhoi meddyginiaethau cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol ar bresgripsiwn, megis Botox, Dysport, Vistabel neu feddyginiaethau cosmetig eraill y gellir eu chwistrellu. Felly, rhaid i chi beidio â rhoi'r meddyginiaethau hyn ar bresgripsiwn o bell.

## Oes gennych chi ddigon o wybodaeth am y claf i gynnig, presgripsiynu neu ddarparu triniaeth sy'n diwallu ei anghenion?

**26.** Dim ond os yw'n ddiogel gwneud hynny y cewch chi gynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaethau, triniaethau neu ddyfeisiau.

- a. Nid yw'n ddiogel cynnig, presgripsiynu na darparu meddyginiaethau, triniaeth neu ddyfeisiau os nad oes gennych ddigon o wybodaeth am iechyd y claf neu os yw'r dull ymgynghori'n anaddas i ddiwallu ei anghenion.
- b. Gall fod yn anniogel os nad yw gwybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â darparwyr gofal iechyd eraill sy'n ymwneud â gofal y claf – er enghraifft am fod y claf yn gwrthod cydsynio.

**27.** Cyn cynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaethau, triniaeth neu ddyfeisiau, rhaid i chi ystyried a yw'r wybodaeth sydd gennych yn ddigonol ac yn ddigon dibynadwy i'ch galluogi i ddarparu gofal diogel.

Er enghraifft:

- a. p'un a oes gennych fynediad at gofnodion meddygol y claf neu wybodaeth ddibynadwy arall am ei iechyd a thriniaethau eraill y mae'n eu derbyn
  - b. p'un a allwch wirio gwybodaeth bwysig arall drwy archwilio neu brofi
  - c. p'un a fyddai'r claf mewn perygl o farwolaeth neu niwed difrifol os yw hefyd yn cael meddyginiaeth o ffynonellau eraill.
- 28.** Os nad chi yw gweithiwr meddygol proffesiynol arferol y claf, dylech ofyn am gydsyniad y claf i:
- a. cysylltu â'i feddyg teulu neu feddygon eraill sy'n ei drin os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu gadarnhad o'r wybodaeth sydd gennych, cyn cynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaethau, triniaeth neu ddyfeisiau
  - b. rhannu gwybodaeth â'i feddyg teulu pan fydd y cyfnod gofal wedi'i gwblhau.<sup>10</sup>
- 29.** Os yw'r claf yn gwrthwynebu rhannu gwybodaeth â chi, neu os nad oes ganddo bresgripsiynydd rheolaidd, rhaid i chi allu cyfiawnhau penderfyniad i gynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaethau, triniaeth neu ddyfeisiau heb y wybodaeth honno.
- 30.** Os bydd y claf yn gwrthod rhoi caniatâd i chi rannu gwybodaeth â'i feddyg teulu, neu os nad oes ganddo feddyg teulu, dylech egluro i'r claf beth yw'r risgiau o beidio â rhannu'r wybodaeth hon. Dylai hyn gael ei gofnodi yn y cofnodion gofal.
- 31.** Os gallai peidio â rhannu gwybodaeth beri risg i ddiogelwch claf, dylech egluro i'r claf na allwch gynnig, presgripsiynu na darparu meddyginiaethau, triniaeth neu ddyfeisiau. Dylech amlinellu ei opsiynau a'i gyfeirio at wasanaethau amgen priodol. Dylech gofnodi'n glir eich rhesymau dros unrhyw benderfyniadau a wnaed.
- 32.** Wrth drin cleifion agored i niwed mewn unrhyw leoliad, fel cartrefi plant, cartrefi gofal neu garchardai, cymerwch ofal arbennig i ddilyn protocolau cenedlaethol perthnasol. Dylech gefnogi rhannu gwybodaeth yn briodol ac effeithiol rhwng y lleoliad a'r gymuned er mwyn sicrhau parhad gofal.

## Allwch chi sefydlu deialog a chael cydsyniad?

### Sefydlu deialog

- 33.** Rhaid i chi sefydlu deialog gyda'ch claf i'w helpu i ystyried gwybodaeth am ei opsiynau ac er mwyn iddo allu penderfynu a yw am gael gofal neu driniaeth ai peidio. Dylai deialog dda roi cyfle i chi a'ch claf ofyn cwestiynau er mwyn cael y wybodaeth sydd ei hangen ar y ddau ohonoch.
- 34.** Gyda'r claf, dylech asesu ei gyflwr cyn penderfynu cynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaeth, triniaeth neu ddyfais. Rhaid i chi fod â hanes digonol, neu sicrhau eich bod yn cael hanes digonol, sy'n cynnwys:
- a. unrhyw adwaith niweidiol blaenorol i feddyginiaethau
  - b. defnydd cyfredol a diweddar o feddyginiaethau eraill, gan gynnwys

meddyginiaethau di-bresgripsiwn a llysieuol, cyffuriau anghyfreithlon a meddyginiaethau a brynir ar-lein neu wyneb yn wyneb

c. cyflyrau meddygol eraill.

35. Dylech annog eich claf i fod yn agored ynghylch ei ddefnydd o feddyginiaethau amgen, sylweddau anghyfreithlon a meddyginiaethau a gafwyd ar-lein neu wyneb yn wyneb, yn ogystal ag a yw wedi cymryd meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn ôl y cyfarwyddyd yn y gorffennol.
36. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch i'ch helpu i benderfynu pa opsiynau fyddai'n diwallu anghenion y claf, rhaid i chi ofyn amdani cyn argymhell opsiwn neu fwrw ymlaen â thriniaeth.
37. Os nad yw'n bosibl cael eglurdeb neu ofyn am ragor o wybodaeth gan y claf yn yr amgylchedd rydych chi'n gweithio ynddo, dylech ystyried a yw'n ddiogel cynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaethau, triniaeth neu ddyfeisiau, a chodi pryderon fel y bo'n briodol. Er enghraifft, efallai y byddai'n briodol codi pryderon os yw'r system rydych chi'n gweithio ynddi yn cynnwys presgripsiynu o bell ar sail holiadur ac nad oes mecanwaith ar gyfer deialog na chyfathrebu dwyffordd â chleifion.

## Asesu anghenion y claf

38. Dylech nodi achos tebygol cyflwr y claf a pha driniaethau sy'n debygol o ddiwallu ei anghenion.
39. Dylech ddod i gytundeb gyda'r claf ynghylch y driniaeth arfaethedig,<sup>11</sup> gan egluro:
  - a. y manteision, y risgiau a'r effaith debygol, gan gynnwys sgil-effeithiau difrifol a chyffredin
  - b. beth i'w wneud os bydd sgil effaith neu os bydd y cyflwr yn digwydd eto
  - c. sut a phryd i gymryd y feddyginiaeth a sut i addasu'r dos os oes angen
  - d. sut i ddefnyddio dyfais feddygol
  - e. hyd tebygol y driniaeth
  - f. unrhyw drefniadau perthnasol ar gyfer monitro, dilyn i fyny ac adolygu, gan gynnwys ymgynghori pellach, profion gwaed neu ymchwiliadau eraill, prosesau ar gyfer addasu'r math neu'r dos o feddyginiaeth ac ar gyfer rhoi presgripsiynau rheolaidd.

## Asesu galluedd claf

40. Rhaid i chi ddechrau gyda'r rhagdybiaeth bod gan bob claf sy'n oedolyn y gallu i wneud penderfyniadau am ei ofal. Mae asesu galluedd yn sgil glinigol graidd ac nid oes angen mewnbwn arbenigol o reidrwydd. Dylech allu dod i gasgliadau rhesymol am allu eich claf yn ystod eich deialog ag ef.
41. Os ydych chi'n ansicr a oes gan glaf y gallu i wneud penderfyniad, dylech asesu ei allu

gan ddefnyddio'r prawf o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae ein canllawiau ar [Penderfynu a chydsynio](#) yn rhoi cyngor manwl ar asesu galluedd a gwneud penderfyniadau lle gwyddys nad oes gan glaf alluedd, ym mharagraffau 76 i 91.

42. Gellir cynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaethau heb gydsyniad os yw'n debygol o fod o fudd cyffredinol i oedolion sydd heb alluedd, neu'n unol â deddfwriaeth iechyd meddwl. Gweler paragraffau 87-91 o *Penderfynu a chydsynio*.
43. I gleifion o dan 18 oed, dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â *0–18 oed*.<sup>12</sup>

## Rhoi gwybodaeth i gleifion

44. Bydd faint o wybodaeth a roddwch i bob claf yn amrywio yn ôl natur ei gyflwr, y risgiau a'r sgil effeithiau posibl, ac anghenion a dymuniadau'r claf. Dylech wirio bod y claf wedi deall y wybodaeth a'i annog i ofyn cwestiynau i gael eglurhad ar unrhyw bryderon neu ansicrwydd. Dylech ystyried manteision gwybodaeth ysgrifenedig, gwybodaeth mewn ieithoedd eraill a chymhorthion i gleifion anabl i'w helpu i ddeall ac ystyried a chadw gwybodaeth mewn ffordd sy'n addas i'w hanghenion.
45. Weithiau, mae'n anodd, oherwydd pwysau amser, rhoi cymaint o wybodaeth ag y byddech chi neu gleifion yn ei hoffi. I helpu gyda hyn, dylech ystyried y rôl y gallai aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd, gan gynnwys fferyllwyr, ei chwarae. Gall fferyllwyr gynnal adolygiadau meddyginiaeth, esbonio sut i gymryd meddyginiaethau a chynnig cyngor ar ryngweithiadau a sgil-effeithiau. Dylech weithio gyda'r fferyllwyr yn eich sefydliad a/neu ardal leol i osgoi'r risg o orlwytho neu ddrysu cleifion â gwybodaeth ormodol neu anghyson.
46. Dylech gyfeirio cleifion at y wybodaeth yn PILs a ffynonellau gwybodaeth dibynadwy eraill.<sup>13</sup> Mae PILs yn ychwanegiadau defnyddiol at y wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i gleifion am eu meddyginiaethau, ond nid ydynt yn cymryd lle'r wybodaeth honno.
47. Gyda chydsyniad y claf, dylech roi gwybodaeth i ofalwyr cleifion am y meddyginiaethau rydych yn eu cynnig, eu presgripsiynu neu eu darparu. Os nad oes gan y claf alluedd i gydsynio, dylech rannu'r wybodaeth hon gyda gofalwyr lle y byddai, yn eich barn chi, o fudd cyffredinol i'r claf.<sup>14</sup>
48. Nid yw rhai cleifion yn cymryd meddyginiaethau sydd wedi'u rhoi iddynt ar bresgripsiwn, neu nid ydynt yn dilyn y cyfarwyddiadau ynghylch y dos neu'r amser y dylid cymryd meddyginiaethau. Dylech geisio deall y rhesymau dros hyn a mynd i'r afael â nhw drwy roi tawelwch meddwl a gwybodaeth ddefnyddiol. Dylech geisio dod i gytundeb gyda'r claf ar gwrs priodol o driniaeth y bydd yn gallu cadw ato ac y bydd yn fodlon gwneud.<sup>15</sup>

## Cael cydsyniad claf

49. Dylech fod yn gymesur wrth geisio cydsyniad claf. Ar gyfer y rhan fwyaf o benderfyniadau neu gynigion presgripsiynu, gallwch ddibynnu ar gydsyniad llafar claf, cyn belled â'ch bod yn fodlon ei fod wedi cael cyfle i ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol ac wedi penderfynu bwrw ymlaen. Weithiau, mae angen llofnod claf ar ffurflen, er enghraifft i gydymffurfio â rhybudd diogelwch cyffuriau MHRA am

feddyginiaeth sydd â sgil-ffeithiau difrifol.

## Delio â cheisiadau cleifion am feddyginiaeth nad ydych chi'n meddwl y bydd o fudd iddyn nhw

50. Weithiau, bydd cleifion yn gofyn am driniaeth neu ofal nad ydych chi'n meddwl y bydd er eu lles clinigol. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylech ystyried y rhesymau dros eu cais, eu dealltwriaeth o'r hyn y byddai'n ei olygu a'u disgwyliadau o ran y canlyniad tebygol. Bydd y drafodaeth hon yn eich helpu i ystyried y ffactorau sy'n bwysig i'r claf ac asesu a allai'r driniaeth neu'r gofal ddiwallu anghenion y claf.
51. Os ydych chi'n dal i gredu, ar ôl trafod, na fyddai'r driniaeth neu'r gofal yn diwallu anghenion y claf, ni ddylech ei darparu na'i chynnig. Dylech egluro eich rhesymau i'r claf ac archwilio opsiynau eraill a allai fod ar gael, gan gynnwys ei hawl i ofyn am ail farn.

## Rhannu gwybodaeth ar ôl darparu gofal

52. Rhaid i chi gyfrannu at drosglwyddo cleifion yn ddiogel rhwng darparwyr gofal iechyd a rhwng darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi rannu'r holl wybodaeth berthnasol â chydweithwyr sy'n ymwneud â gofal eich claf yn y tîm a'r tu allan iddo. Mae hyn yn cynnwys pan fyddwch yn trosglwyddo gofal wrth i chi fynd oddi ar ddyletswydd, pan fyddwch yn dirprwyo gofal, neu pan fyddwch yn cyfeirio cleifion at ddarparwyr iechyd neu ofal cymdeithasol eraill. Dylech gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am ddefnydd presennol a diweddar y claf o feddyginiaethau, yn ogystal ag unrhyw gyflyrau eraill, alergeddau ac adweithiau niweidiol blaenorol i feddyginiaethau.
53. Mae'n hanfodol ar gyfer gofal diogel bod gwybodaeth am feddyginiaethau yn mynd gyda chleifion, neu'n eu dilyn yn gyflym, er enghraifft wrth gael eu derbyn i'r ysbyty ar frys, pan fyddant yn trosglwyddo rhwng lleoliadau gofal.<sup>16</sup>
54. Os mai chi yw meddyg teulu'r claf, dylech wneud yn siŵr bod newidiadau i feddyginiaethau'r claf, er enghraifft ar ôl triniaeth yn yr ysbyty, yn cael eu hadolygu a'u hymgorffori'n gyflym yng nghofnod y claf. Bydd hyn yn helpu i atal cleifion rhag cael presgripsiynau rheolaidd amhriodol ac yn lleihau'r risg o ryngweithiad niweidiol.<sup>17</sup>
55. Os nad chi yw meddyg teulu'r claf, pan fydd cyfnod gofal wedi'i gwblhau, rhaid i chi ddweud wrth feddyg teulu'r claf am y canlynol:
  - a. newidiadau i feddyginiaethau'r claf ynghyd â rhesymau, gan gynnwys a yw meddyginiaethau presennol yn cael eu newid neu eu stopio, ac a ddechreuir rhoi meddyginiaethau newydd
  - b. hyd y driniaeth a fwriedir
  - c. gofynion monitro, gan gynnwys pwy fydd yn gwneud hyn
  - d. unrhyw alergeddau neu adweithiau niweidiol newydd a nodwyd.
56. Os bydd claf yn gwrthod rhoi caniatâd i'w wybodaeth gael ei rhannu, neu os nad oes gan

y claf feddyg teulu, dylech ddilyn y canllawiau ym mharagraff 30.

**57.** Mewn rhai amgylchiadau, megis darparu gwasanaethau iechyd rhywiol, efallai y bydd pryderon ynghylch preifatrwydd yn drech na'r angen i rannu gwybodaeth.

## Cyffuriau a reolir a meddyginiaethau eraill lle mae angen mesurau diogelu ychwanegol

**58.** Gall rhai categorïau o feddyginiaeth achosi risgiau penodol o niwed difrifol neu gallant fod yn gysylltiedig â gorddefnyddio, camddefnyddio neu ddibyniaeth. Os ydych yn cynnig, yn presgripsiynu neu'n darparu meddyginiaethau o'r fath, dylech ddilyn canllawiau clinigol perthnasol, fel diweddariadau diogelwch cyffuriau ar y risg o ddibyniaeth a mynd yn gaeth sy'n gysylltiedig ag opioidau.<sup>18</sup>

**59.** Os nad oes gennych fynediad at wybodaeth berthnasol o gofnodion meddygol y claf, rhaid i chi beidio â phresgripsiynu cyffuriau neu feddyginiaethau a reolir sy'n debygol o gael eu cam-drin, eu gorddefnyddio neu eu camddefnyddio, neu pan fo risg y byddai rhywun yn mynd yn gaeth iddynt a bod monitro yn bwysig.<sup>19</sup> Eithriadau i hyn yw pan nad oes unrhyw berson arall sydd â mynediad at y wybodaeth honno ar gael i bresgripsiynu heb oedi anniogel ac mae'n angenrheidiol i:

- a. osgoi dirywiad difrifol mewn iechyd neu i osgoi niwed difrifol
- b. sicrhau parhad triniaeth pan fo claf yn annisgwyl heb fynediad at feddyginiaeth am gyfnod cyfyngedig.

**60.** Yn yr amgylchiadau hyn, dylech gynnig, presgripsiynu neu ddarparu swmp a dos cyfyngedig – un sy'n ddigonol i sicrhau bod y claf yn cael gofal addas tan a) ei fod yn gallu gweld gweithiwr iechyd proffesiynol priodol sydd â mynediad at y wybodaeth berthnasol o'i gofnodion meddygol **neu** b) eich bod chi yn gallu gwirio'r wybodaeth honno eich hun. Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylech ystyried y posibilrwydd y gallai'r claf fod yn cael meddyginiaethau o ffynonellau eraill. Dylech hefyd ddilyn y canllawiau ym mharagraffau 55-57.

**61.** Os ydych chi'n ymwneud â phresgripsiynu neu gynnig meddyginiaethau a thriniaethau o bell, rhaid i chi hefyd fod yn fodlon bod mesurau diogelu priodol ar waith i gynnal presgripsiynu diogel. Mae'r mesurau diogelu perthnasol yn cynnwys:

- a. archwiliadau adnabod cadarn i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rhoi ar bresgripsiwn i'r person cywir
- b. os nad chi yw'r gweithiwr meddygol proffesiynol rheolaidd, gwiriwch i wneud yn siŵr bod y claf wedi rhoi caniatâd i chi gysylltu â'i bresgripsiynydd rheolaidd ynghylch ei bresgripsiwn (gweler paragraff 28)
- c. sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am y presgripsiwn yn cael ei rhannu â meddyg teulu'r claf neu'n cael ei hychwanegu at y cofnod gofal sylfaenol (gweler paragraffau 55 i 57).

**62.** Dylech roi i'r claf enwau, rolau a manylion cyswllt y bobl allweddol a fydd yn ymwneud â'i ofal, yn ogystal â chynghor ynghylch pwy y gall gysylltu â nhw os oes ganddo unrhyw

gwestiynau neu bryderon. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych chi'n presgripsiynu o bell.

63. Rhaid i chi beidio â rhoi cyffuriau a reolir ar bresgripsiwn i chi eich hun na rhywun sy'n agos atoch, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 68.
64. Rhaid i chi beidio â chynnig, presgripsiynu na darparu meddyginiaethau er eich hwylustod chi eich hun na hwylustod gweithwyr proffesiynol eraill ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol (er enghraifft, rhoi tawelyddion ar bresgripsiwn er hwylustod i'r rhai sy'n gofalu am gleifion â dementia mewn cartrefi gofal) lle nad oes cyfiawnhad clinigol.<sup>20</sup>
65. Ni chaiff fferyllfeydd roi rhai categorïau o feddyginiaeth os ydynt yn cael eu presgripsiynu o bell, oni bai bod mesurau diogelu penodol yn cael eu bodloni..<sup>21</sup>

## Rhagnodi ar eich cyfer chi eich hun neu'r rhai sy'n agos atoch

66. Ble bynnag y bo modd, rhaid i chi osgoi rhoi presgripsiwn i chi eich hun neu i unrhyw un y mae gennych berthynas bersonol agos ag ef.
67. Os ydych chi'n presgripsiynu unrhyw feddyginiaeth i chi eich hun neu i rywun sy'n agos atoch chi, rhaid i chi wneud y canlynol:
  - a. gwneud cofnod clir ar yr un pryd neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny; dylai'r cofnod gynnwys eich perthynas â'r claf, lle bo'n berthnasol, a'r rheswm pam yr oedd angen i chi roi presgripsiwn
  - b. dilyn y cyngor ar rannu gwybodaeth a phresgripsiynu diogel ym mharagraffau 26 i 32 a 52 i 57.
68. Rhaid i chi beidio â rhoi cyffuriau rheoledig ar bresgripsiwn i chi eich hun na rhywun sy'n agos atoch chi oni bai:
  - a. nad oes unrhyw berson arall sydd â hawl gyfreithiol i bresgripsiynu ar gael i asesu a phresgripsiynu heb oedi
  - b. bod angen triniaeth frys ar unwaith er mwyn osgoi dirywiad difrifol mewn iechyd neu niwed difrifol.

## Cynnig neu bresgripsiynu o bell ar gyfer cleifion mewn cartref gofal/nyrsio neu hosbis

69. Os ydych yn cynnig neu'n presgripsiynu meddyginiaeth neu driniaeth o bell i glaf mewn cartref gofal neu nyrsio neu hosbis, dylech gyfathrebu â'r claf neu, os nad yw hynny'n ymarferol, y sawl sy'n gofalu amdano, i wneud eich asesiad ac i ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol. Dylech wneud yn siŵr bod unrhyw gyfarwyddiadau, fel sut i roi'r cyffur neu fonitro cyflwr y claf, yn cael eu deall. A dylech anfon cadarnhad ysgrifenedig ato cyn gynted â phosibl.

## Cynnig neu bresgripsiynu o bell ar gyfer cleifion sydd wedi'u lleoli dramor

- 70.** Yn ogystal â'r canllawiau uchod, cyn cynnig neu bresgripsiynu meddyginiaethau neu driniaeth o bell i gleifion sydd dramor, dylech hefyd ystyried:
- sut byddwch chi neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol lleol yn monitro eu cyflwr
  - gwahaniaethau yn enw trwyddedig y cynnyrch, yr arwyddion a'r dos a argymhellir
  - a oes gennych drefniadau yswiriant neu indemniad digonol ar waith ar gyfer eich ymarfer ym mhob gwlad berthnasol
  - p'un a oes angen i chi fod wedi cofrestru gyda nifer o gyrff rheoleiddio, gan gynnwys yn y wlad rydych chi wedi'i lleoli ynddi, yn y wlad lle mae'r claf wedi'i lleoli, ac yn y wlad lle mae'r meddyginiaethau a bresgripsiynir i gael eu gweinyddu.
- 71.** Dylech hefyd ddilyn gofynion cyfreithiol y DU a gwledydd tramor yn ogystal â chanllawiau perthnasol ar fewnforio ac allforio i sicrhau danfon yn ddiogel, gan gynnwys gan yr MHRA.
- 72.** Os ydych chi'n ystyried gweithio i ddarparwyr gwasanaeth sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU, mae'n bwysig bod yn ymwybodol na fydd mecanweithiau lleol wedi'u sefydlu efallai i ddarparu systemau rheoleiddio effeithiol, a gallai hyn effeithio ar ddiogelwch cleifion.

## Rhannu gofal

- 73.** Dylai penderfyniadau ynghylch pwy ddylai gymryd cyfrifoldeb am ofal neu driniaeth barhaus ar ôl diagnosis neu asesiad cychwynnol fod yn seiliedig ar les pennaf y claf, yn hytrach nag ar hwylustod neu gost y feddyginiaeth a'r monitro neu'r gwaith dilyn i fyny cysylltiedig.
- 74.** Gyda gofal a rennir, mae angen i bob parti gytuno, gan gynnwys y claf. Mae'n hanfodol bod pob parti'n cyfathrebu'n effeithiol ac yn gweithio gyda'i gilydd.

## Presgripsiynu ar sail cynnig neu argymhelliad gan gydweithiwr

- 75.** Os ydych yn presgripsiynu ar sail cynnig neu argymhelliad gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, rhaid i chi fod yn fodlon bod y presgripsiwn yn angenrheidiol, yn briodol i'r claf, o fewn terfynau eich cymhwysedd a bod gennych ddigon o wybodaeth i symud ymlaen yn ddiogel.
- 76.** Os ydych chi'n dirprwyo'r gwaith o asesu addasrwydd claf ar gyfer meddyginiaeth, rhaid i chi fod yn fodlon bod gan y sawl rydych chi'n dirprwyo iddo y cymwysterau, y profiad, y wybodaeth a'r sgiliau i wneud yr asesiad. Rhaid i chi roi digon o wybodaeth iddynt am y claf i gynnal yr asesiad. Rhaid i chi hefyd wneud yn siŵr eu bod yn dilyn ein canllawiau ar *Penderfynu a chydsynio* ym mharagraffau 42 i 47.

**77.** Yn y naill achos a'r llall (paragraffau 75-76), byddwch chi'n gyfrifol am y camau a gymerwch i sicrhau bod y presgripsiwn yn briodol, yn angenrheidiol ac yn ddiogel.

## Argymell a chynnig meddyginiaethau, triniaethau neu ddyfeisiau i gydweithiwr eu rhagnodi

**78.** Os ydych chi'n argymell neu'n cynnig bod cydweithiwr yn presgripsiynu meddyginiaeth, triniaeth neu ddyfais benodol ar gyfer claf, rhaid i chi ystyried a yw'n gallu gwneud hynny'n ddiogel. Rhaid i chi fod yn fodlon bod ganddo ddigon o wybodaeth, profiad a gwybodaeth am y claf a'r feddyginiaeth, y driniaeth neu'r ddyfais er mwyn presgripsiynu. Dylech fod yn barod i ateb ei gwestiynau a'i gynorthwyo fel arall i ofalu am y claf, yn ôl yr angen.

## Presgripsiynu wrth rannu gofal

**79.** Os ydych yn rhannu cyfrifoldeb am ofal claf gyda chydweithiwr, rhaid i chi fod yn gymwys i arfer eich cyfran chi o gyfrifoldeb clinigol. Dylech chi wneud y canlynol:

- a) sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf gennych am y meddyginiaethau sy'n cael eu rhoi ar bresgripsiwn i'r claf
- b) gallu adnabod sgil-effeithiau niweidiol difrifol sy'n digwydd yn aml
- c) sicrhau bod trefniadau monitro clinigol priodol ar waith a bod y claf a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol perthnasol yn eu deall
- d) cadw'n gyfredol â chanllawiau perthnasol ar ddefnyddio'r meddyginiaethau ac ar reoli cyflwr y claf.

**80.** Wrth gynnig trefniant rhannu gofal, gall arbenigwyr ddweud wrth feddyg teulu'r claf pa feddyginiaeth i'w rhoi ar bresgripsiwn. Os ydych chi'n argymell meddyginiaeth newydd neu feddyginiaeth nad yw'n cael ei rhoi yn aml ar bresgripsiwn, dylech nodi'r dos a'r dull o'i rhoi, a chytuno ar brotocol ar gyfer triniaeth. Dylech egluro'r defnydd o feddyginiaethau didrwydded a gwyradau oddi wrth ganllawiau awdurdodol neu driniaethau a argymhellir. Dylech hefyd roi digon o wybodaeth i'r meddyg teulu a'r claf fel bod modd rheoli cyflwr y claf yn ddiogel.<sup>22</sup>

**81.** Os ydych chi'n ansicr ynghylch eich cymhwysedd i gymryd cyfrifoldeb dros ofal parhaus y claf, dylech ofyn am ragor o wybodaeth neu gyngor gan y clinigydd sy'n rhannu'r cyfrifoldebau gofal neu gan gydweithiwr profiadol arall. Os ydych yn dal i fod yn anfodlon, dylech egluro hyn i'r clinigydd arall, ac i'r claf, a gwneud trefniadau priodol ar gyfer ei ofal parhaus.

## Codi pryderon

- 82.** Mae camgymeriadau wrth bresgripsiynu a rhoi meddyginiaeth yn digwydd yn gyffredin,<sup>23</sup> ond fel arfer osgoir niwed drwy i gydweithwyr ymyrryd cyn y gall y camgymeriadau effeithio ar gleifion.
- 83.** Rhaid i chi ddiogelu cleifion rhag risg o niwed a achosir gan gamgymeriadau cydweithwyr o ran presgripsiynu a gweinyddu a chamgymeriadau eraill ganddynt yn ymwneud â meddyginiaethau, triniaeth neu ddyfeisiau. Dylech gwestiynu unrhyw benderfyniad neu weithred a allai fod yn anniogel yn eich barn chi.<sup>24</sup> Dylech hefyd ymateb yn adeiladol i bryderon a godir gan gydweithwyr, cleifion a gofalwyr am eich ymarfer chi eich hun.
- 84.** Dylech roi'r flaenoriaeth gyntaf i ddiogelwch cleifion a chodi pryderon os nad oes gan y gwasanaeth neu'r system yr ydych yn gweithio ynddi fesurau diogelu digonol, sy'n berthnasol i natur a dull yr ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau adnabod a dilysu priodol.<sup>25</sup> Ni ddylech gynnig, darparu na phresgripsiynu meddyginiaethau, triniaeth na dyfeisiau oni bai ei bod yn ddiogel gwneud hynny.

## Rhoi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau, digwyddiadau yn ymwneud â dyfeisiau meddygol a digwyddiadau eraill yn ymwneud â diogelwch cleifion

- 85.** Gall rhoi gwybod yn gynnar, fel mater o drefn, am adweithiau niweidiol, digwyddiadau a damweiniau fu bron â digwydd sy'n ymwneud â meddyginiaethau a dyfeisiau sicrhau bod problemau'n ymwneud â pherfformiad a systemau'n cael eu harchwilio, bod problemau'n cael eu datrys a gwersi'n cael eu dysgu.<sup>24</sup> Rhaid i chi wneud adroddiadau yn unol â gweithdrefnau llywodraethu clinigol lleol eich cyflogwr neu'r corff contractio.<sup>26</sup>
- 86.** Rhaid i chi ddefnyddio'r [Cynllun Cerdyn Melyn](#)<sup>27, 28</sup> i roi gwybod i'r MHRA am y canlynol:
- amheuaeth o adweithiau niweidiol difrifol i feddyginiaeth
  - unrhyw amheuaeth o adweithiau niweidiol i gynhyrchion sydd wedi'u marcio â symbol Triangl Du (▼).<sup>29</sup>
- 87.** Rhaid rhoi gwybod i'r arweinydd diogelwch dyfeisiau meddygol yn eich sefydliad (os oes un) a'r corff cenedlaethol perthnasol am ddigwyddiadau niweidiol yn ymwneud â dyfeisiau meddygol, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu hachosi gan gamgymeriad dynol, sy'n rhoi diogelwch cleifion, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol neu eraill mewn perygl, neu sydd â'r potensial i wneud hynny:
- yng Nghymru a Lloegr – [MHRA rhoi gwybod am ddigwyddiadau niweidiol](#)
  - yng Ngogledd Iwerddon – [Canolfan Digwyddiadau Niweidiol Gogledd Iwerddon](#).
  - yn yr Alban – [Adrodd ar-lein am ddigwyddiadau Cyfleusterau Iechyd yr Alban](#)
- 88.** Dylech roi gwybodaeth i gleifion am sut y gallant roi gwybod yn uniongyrchol i'r MHRA

am sgil-ffeithiau posibl.

- 89.** Dylech hefyd wirio bod digwyddiadau diogelwch cleifion yn cael eu hadrodd i'r corff neu'r system genedlaethol berthnasol, yn enwedig os nad yw digwyddiadau o'r fath yn cael eu hadrodd yn awtomatig drwy drefniadau llywodraethu clinigol lle rydych chi'n gweithio. Er enghraifft:
- Yng Nghymru a Lloegr, mae digwyddiadau diogelwch cleifion yn cael eu hadrodd i'r gwasanaeth Dysgu o ddigwyddiadau diogelwch cleifion (LFPSE).<sup>30</sup>
  - Yng Ngogledd Iwerddon, adroddir digwyddiadau niweidiol difrifol i'r Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol (HSCB) a'r Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus Ranbarthol.<sup>31</sup>
  - Yn yr Alban, dylid adrodd ar adolygiadau mawr o ddigwyddiadau niweidiol a gomisiynir gan fyrdau'r GIG am ddigwyddiad niweidiol categori un i Gwella Gofal Iechyd yr Alban.<sup>32</sup>
- 90.** Lle bo'n briodol, dylech hefyd mewn achosion perthnasol roi gwybod am adweithiau niweidiol i gyffuriau a digwyddiadau diogelwch cleifion i feddyg teulu'r claf, y fferyllfa a gyflenwodd y feddyginiaeth, y swyddog atebol dros gyffuriau rheoledig yn lleol a gweithgynhyrchwyr y feddyginiaeth.
- 91.** Dylech ymateb i geisiadau gan yr [Uned Ymchwil Diogelwch Cyffuriau](#) am ddata monitro digwyddiadau-presgripsiwn a gwybodaeth ar gyfer astudiaethau ar faterion diogelwch neu wylidwriaeth ffarmacolegol penodol.

## Adolygu meddyginiaethau

- 92.** P'un a ydych yn cynnig, yn presgripsiynu neu'n darparu meddyginiaethau ar bresgripsiwn rheolaidd neu bresgripsiwn unigol, rhaid ichi sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer monitro, dilyn i fyny ac adolygu. Dylech ystyried anghenion y claf ac unrhyw risg sy'n deillio o'r meddyginiaethau.
- 93.** Pan fyddwch yn adolygu meddyginiaethau claf, dylech ailasesu ei angen am unrhyw feddyginiaethau didrwydded (gweler paragraff 102 i 105) y gallai fod yn eu cymryd, er enghraifft cyffuriau gwrthseicotig a ddefnyddir i drin symptomau ymddygiadol a seicolegol mewn dementia.
- 94.** Bydd adolygu meddyginiaethau yn arbennig o bwysig:
- Ile gall cleifion fod mewn perygl, er enghraifft, y rheini sy'n fregus neu sydd â sawl salwch
  - Ile mae i feddyginiaethau sgil effeithiau a allai fod yn ddifrifol neu'n gyffredin
  - Ile mae'r claf yn cael meddyginiaeth reoledig neu feddyginiaeth arall sy'n cael ei chamdefnyddio'n aml
  - Ile mae'r BNF neu ganllawiau clinigol awdurdodol eraill yn argymhell profion gwaed neu fonitro arall yn rheolaidd.
- 95.** Gall fferyllwyr helpu i wella diogelwch, effeithiolrwydd ac ymlyniad wrth ddefnyddio meddyginiaethau, er enghraifft drwy gynghori cleifion am eu meddyginiaethau a chynnal

adolygiadau o feddyginiaethau. Nid yw hyn yn disodli eich dyletswydd chi i sicrhau eich bod yn rhagnodi ac yn rheoli meddyginiaethau'n briodol.

- 96.** Dylech ystyried a gweithredu'n briodol ar wybodaeth a chynghor gan fferyllwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sydd wedi adolygu defnydd claf o feddyginiaethau. Mae hyn yn arbennig o wir os oes newidiadau i feddyginiaethau claf, neu os yw'n rhoi gwybod am broblemau gyda goddefiad, sgil effeithiau neu gyda chymryd meddyginiaethau yn ôl y cyfarwyddyd.

## Presgripsiynu rheolaidd a phresgripsiynu dro ar ôl tro

- 97.** Rhaid i chi sicrhau bod unrhyw bresgripsiwn rheolaidd y byddwch yn ei gynnig neu ei lofnodi yn ddiogel ac yn briodol (gweler paragraffau 75-78 uchod). Dylech ystyried manteision presgripsiynu dro ar ôl tro a, phan fo modd, leihau gweithgarwch presgripsiynu rheolaidd.
- 98.** Yn yr un modd ag unrhyw bresgripsiwn, dylech gytuno gyda'r claf pa feddyginiaethau sy'n briodol a sut bydd ei gyflwr yn cael ei reoli, gan gynnwys dyddiad ar gyfer adolygu. Dylech egluro pam mae adolygiadau rheolaidd yn bwysig ac egluro i'r claf beth y dylai ei wneud os bydd:
- yn dioddef sgil effeithiau neu adweithiau niweidiol
  - yn rhoi'r gorau i gymryd y meddyginiaethau cyn y dyddiad adolygu y cytunwyd arno, neu cyn i nifer penodol o bresgripsiynau rheolaidd gael eu rhoi.

Rhaid i chi lunio cofnodion clir o'r trafodaethau hyn a'ch rhesymau dros bresgripsiynu rheolaidd neu dros gynnig presgripsiynu rheolaidd.<sup>33</sup>

- 99.** Rhaid i chi fod yn fodlon bod y gweithdrefnau ar gyfer presgripsiynu dro ar ôl tro ac ar gyfer cynhyrchu presgripsiynau rheolaidd yn ddiogel a:
- bod y claf cywir yn cael y presgripsiwn cywir
  - bod y dos cywir yn cael ei bresgripsiynu, yn enwedig i gleifion y mae eu dos yn amrywio yn ystod y driniaeth
  - bod cyflwr y claf yn cael ei fonitro, gan ystyried y defnydd o feddyginiaethau a'u heffeithiau
  - dim ond staff sy'n gymwys i wneud hynny sy'n paratoi presgripsiynau rheolaidd i'w hawdurdodi
  - bod cleifion sydd angen archwiliad neu asesiad pellach yn cael eu hadolygu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol
  - bod unrhyw newidiadau i feddyginiaethau'r claf yn cael eu hadolygu'n feirniadol a'u hymgorffori'n gyflym yn ei gofnod.
- 100.** Ym mhob adolygiad, dylech gadarnhau bod y claf yn cymryd ei feddyginiaethau yn ôl y cyfarwyddyd a gwneud yn siŵr bod angen y meddyginiaethau o hyd, eu bod yn effeithiol ac yn cael eu goddef. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig yn dilyn arhosiad yn yr ysbyty neu newidiadau i feddyginiaethau yn dilyn ymweliad ag ysbyty neu ymweliad gartref. Dylech hefyd ystyried a yw ceisiadau am bresgripsiynau rheolaidd sy'n dod i law

yn gynharach neu'n hwyrach na'r disgwyl o bosibl yn dangos ymlyniad gwael, gan arwain at therapi annigonol neu effeithiau niweidiol.

- 101.** Pan fyddwch yn rhoi presgripsiynau rheolaidd neu'n presgripsiynu dro ar ôl tro, dylech sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i fonitro a yw'r feddyginiaeth yn dal yn ddiogel ac yn angenrheidiol i'r claf. Dylech gadw cofnod o'r fferyllwyr sy'n dal presgripsiynau rheolaidd gwreiddiol er mwyn i chi allu cysylltu â nhw os oes angen.

## Meddyginiaethau heb eu trwyddedu

- 102.** Yn y canllawiau hyn, defnyddir y term 'meddyginiaeth heb ei thrwyddedu' i ddisgrifio meddyginiaethau sy'n cael eu defnyddio y tu allan i delerau eu trwydded yn y DU neu sydd heb drwydded i'w defnyddio yn y DU.<sup>34</sup> Mae meddyginiaethau heb eu trwyddedu yn cael eu defnyddio'n gyffredin mewn rhai meysydd meddygaeth, fel mewn paediatreg, seiciatreg a gofal lliniarol. Maent hefyd yn cael eu defnyddio, er yn llai aml, mewn meysydd meddygaeth eraill.

- 103.** Fel arfer, dylech gynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaethau trwyddedig yn unol â thelerau eu trwydded. Fodd bynnag, gall meddyginiaethau heb eu trwyddedu fod yn briodol os byddwch, ar sail asesiad o'r claf unigol, yn dod i'r casgliad, am resymau meddygol, ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny i ddiwallu anghenion penodol y claf.

- 104.** Efallai y bydd angen meddyginiaethau heb eu trwyddedu yn yr achosion canlynol.
- a. Nid oes meddyginiaeth wedi'i thrwyddedu'n addas a fydd yn diwallu anghenion y claf. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys – ond heb fod yn gyfyngedig i – achosion:<sup>35</sup>
    - I. lle nad oes meddyginiaeth drwyddedig sy'n gymwys i'r claf penodol, er enghraifft, os yw'r claf yn blentyn ac y byddai meddyginiaeth a drwyddedir ar gyfer cleifion sy'n oedolion yn unig yn diwallu anghenion y plentyn
    - II. ni fyddai meddyginiaeth sydd wedi'i thrwyddedu i drin cyflwr neu symptom mewn plant yn diwallu anghenion penodol y plentyn dan sylw, ond byddai meddyginiaeth sydd wedi'i thrwyddedu ar gyfer yr un cyflwr neu symptom mewn oedolion yn gwneud hynny
    - III. ni fyddai'r dos a nodwyd ar gyfer meddyginiaeth drwyddedig yn diwallu anghenion y claf
    - IV. bod angen meddyginiaeth ar y claf mewn ffurf nad yw wedi ei phennu mewn trwydded gymwys.
  - b. Nid oes meddyginiaeth â thrwydded addas a fyddai'n diwallu anghenion y claf ar gael. Gall hyn godi pan fo prinder cyflenwad dros dro, er enghraifft.
  - c. Mae'r presgripsiynu yn rhan o brosiect ymchwil sydd wedi'i gymeradwyo'n briodol.
  - d. Mae risg ddifrifol i iechyd y cyhoedd ac mae'r MHRA wedi rhoi awdurdod dros dro i werthu neu gyflenwi meddyginiaeth ddi-drwydded, fel brechlyn neu driniaeth, mewn ymateb.<sup>36</sup>

- 105.** Os ydych yn cynnig, yn presgripsiynu neu'n darparu meddyginiaeth ddirwydded, rhaid i chi:
- bod yn fodlon bod digon o dystiolaeth neu brofiad o ddefnyddio'r feddyginiaeth i ddangos ei diogelwch a'i heffeithiolrwydd
  - cymryd cyfrifoldeb am bresgripsiynu'r feddyginiaeth (neu sicrhau bod y sawl yr ydych yn cynnig y presgripsiwn iddo yn ymwybodol bod y feddyginiaeth heb ei thrwyddedu, a'r rhesymau pam) ac am oruchwylio'r gofal, y monitro ac unrhyw driniaeth ddilynol i'r claf (neu wneud yn siŵr bod trefniadau ar waith i weithiwr meddygol proffesiynol addas arall wneud hynny)
  - gwneud cofnod clir, cywir a darllenadwy o'r holl feddyginiaethau a roddwyd ar bresgripsiwn a, lle nad ydych yn dilyn yr arfer cyffredin, eich rhesymau dros roi meddyginiaeth ddirwydded ar bresgripsiwn.

## Gwybodaeth i gleifion am y drwydded ar gyfer eu meddyginiaethau

- 106.** Rhaid i chi roi digon o wybodaeth i gleifion, neu eu rhieni neu ofalwyr, am y meddyginiaethau rydych chi'n bwriadu eu presgripsiynu, er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.
- 107.** Mae rhai meddyginiaethau'n cael eu defnyddio fel mater o drefn y tu allan i delerau eu trwydded, er enghraifft wrth drin plant. Mewn argyfyngau neu lle nad oes triniaeth arall realistig a bod gwybodaeth o'r fath yn debygol o achosi trallod, efallai na fydd yn ymarferol neu'n angenrheidiol tynnu sylw at y drwydded. Mewn achosion eraill, pan fydd presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded yn cael ei gefnogi gan ganllawiau clinigol awdurdodol, gall fod yn ddigon disgrifio'n gyffredinol pam nad yw'r feddyginiaeth wedi'i thrwyddedu ar gyfer y defnydd arfaethedig neu'r boblogaeth o gleifion.<sup>38</sup> Rhaid i chi bob amser ateb cwestiynau gan gleifion, neu eu rhieni neu ofalwyr, am feddyginiaethau yn llawn ac yn onest.
- 108.** Os ydych chi'n bwriadu cynnig, presgripsiynu neu ddarparu meddyginiaethau didrwydded lle nad yw'n arferol neu os oes dewisiadau eraill sydd â thrwydded addas ar gael, dylech egluro hyn i'r claf, a rhoi eich rhesymau dros wneud hynny.

## Meddyginiaeth chwaraeon

109. Rhaid i chi beidio â phresgripsiynu na chydgyllwynio i ddarparu meddyginiaethau neu driniaeth gyda'r bwriad o wella perfformiad unigolyn mewn chwaraeon yn amhriodol. Nid yw hyn yn atal darparu unrhyw ofal neu driniaeth lle mai eich bwriad yw diogelu neu wella iechyd y claf.

## Ôl-nodiadau

- ['Good medical practice'](#) (2024) Llundain, Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

2. Ni all cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia bresgripsiynu meddyginiaethau presgripsiwn-yn-unig, ond maent yn ymwneud â chynnig meddyginiaethau neu ddyfeisiau i bresgripsiynydd awdurdodedig eu hadolygu a'u llofnodi. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cadarnhau, unwaith y bydd cymdeithion meddygol a chymdeithion anesthesia yn rolau rheoledig, na fydd unigolion a gyflogir yn y swyddogaethau hyn yn gallu presgripsiynu'n gyfreithlon gan ddefnyddio hawliau presgripsiynu o rôl reoledig arall. Mae hawliau presgripsiynu yn benodol i'r proffesiwn rheoledig lle cawsant eu caniatáu (fe'u rhoddir i unigolion ar ôl iddynt gael yr hyfforddiant angenrheidiol) ac nid oes modd eu trosglwyddo. Er enghraifft, os ydych wedi ennill hawliau presgripsiynu fel nyrs neu feddyg, ni allwch eu defnyddio tra'n gweithio fel cydymaith meddygol neu gydymaith anesthesia. O 13 Rhagfyr 2024 ymlaen, ni ddylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gyflogir mewn rolau cydymaith meddygol neu gydymaith anesthesia dynodedig bresgripsiynu meddyginiaethau, hyd yn oed os oes ganddynt hawliau presgripsiynu o broffesiwn blaenorol neu os ydynt wedi cael eu hawdurdodi i bresgripsiynu gan eu cyflogwr o'r blaen.
3. '[Raising and acting on concerns about patient safety](#)' (2012) Llundain, Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
4. Gellir defnyddio gwasanaethau presgripsiynu electronig hefyd. Yn Lloegr, gellir anfon presgripsiynau'n electronig i fferyllfa; yng Nghymru a'r Alban, cedwir gwybodaeth mewn cod bar ar bresgripsiwn papur. I gael rhagor o fanylion, ewch i [Get Started with EPS](#), Y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol; [Prescriptions electronically](#), Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru; [Electronic Transfer of Prescriptions \(ETP\)](#), Llywodraeth yr Alban. Efallai y bydd gwasanaethau presgripsiynu electronig yn cael eu cyflwyno yng Ngogledd Iwerddon yn y dyfodol.
5. Gweler [Clinical Indications](#).
6. Gweler y canllawiau ar [Dirprwyo ac atgyfeirio](#) (2013). Gweler hefyd [Supply and administration of Botox®, Vistabel®, Dysport® and other Injectable medicines in cosmetic procedures](#), Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd.
7. Gweler Pennod 14 Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 Rhif 1916 – SI 2012/1916 a '[The Blue Guide: Advertising and Promotion of Medicines in the UK](#)' (MHRA, 3ydd argraffiad, 2il ddiwygiad, Gorffennaf 2019). Mae'r MHRA yn Asiantaeth yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb rheoleiddio dros feddyginiaethau (at ddefnydd pobl), gwaed a dyfeisiau meddygol yn y DU.
8. '[The doctor will zoom you now: getting the most out of the virtual health and care experience](#)' Gorffennaf 2020, Healthwatch, Traverse, National Voices.
9. Mae gan ein [canolfan foesegol](#) adnoddau ar ddefnyddio ein canllawiau yn ymarferol i'ch helpu i benderfynu a yw ymgynghoriadau wyneb yn wyneb neu o bell yn briodol mewn sefyllfaoedd eraill.
10. Mewn rhai amgylchiadau, megis darparu gwasanaethau iechyd rhywiol, efallai y bydd pryderon ynghylch preifatrwydd yn drech na'r angen i rannu gwybodaeth.
11. '[Decision making and consent](#)' (2020) Llundain, Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
12. *0-18 years* (2018) Llundain, Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

13. [NHS Choices](#) a gwybodaeth sy'n dwyn marc ansawdd y Safon Gwybodaeth, er enghraifft. Gweler hefyd [electronic medicines compendium](#).
14. Mae'r cysyniad o fudd cyffredinol yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol i ystyried a yw triniaeth 'o fudd' i glaf (yr Alban), neu er 'budd pennaf' y claf (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon). Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (2020) 'Decision making and consent' Llundain, Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (paragraff 87).  
Gweler hefyd '[Confidentiality: Good practice in handling patient information](#)' (paragraffau 44 i 49).
15. Mae gwefan [NICE](#) yn cynnwys gwybodaeth, canllawiau ac offer ar gyfer deall a gwella ymlyniad. Gweler hefyd [ganllaw NICE ar Medicines adherence](#).
16. Gweler '[Keeping patients safe when they transfer between care providers – getting the medicines right](#)' (2011) Coleg Brenhinol Fferylliaeth.
17. Mae [canllaw NICE ar Medicines optimisation](#) yn darparu argymhellion perthnasol, yn cynnwys mewn perthynas â chysoni meddyginiaethau.
18. Gweler diweddariad diogelwch cyffuriau MHRA ar [Opioids: risk of dependence and addiction](#).
19. Mae canllawiau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol ar [ddarparu gwasanaethau fferylliaeth o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrwyd](#) (Ebrill 2019, a ddiweddarwyd ym mis Mawrth 2022) yn rhoi enghreifftiau o feddyginiaethau perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys: opiadau, tawelyddion, carthyddion, pregabalin, gabapentin.
20. Gweler '[The use of antipsychotic medication for people with dementia: Time for action](#)' (Yr Adran Iechyd, 2009) a [chanllaw NICE ar ddementia](#). Mae gwefan [NICE](#), y Sefydliad GIG ar y cyd a '[Dementia Action Alliance's Call to action: the use of antipsychotic drugs for people with dementia](#)' hefyd yn cynnwys canllawiau, astudiaethau achos a deunyddiau eraill i gefnogi arferion presgripsiynu da a strategaethau gofal amgen ar gyfer cleifion â dementia.
21. I gael rhagor o wybodaeth gweler canllawiau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol ar [ddarparu gwasanaethau fferylliaeth o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrwyd](#) (Ebrill 2019, a ddiweddarwyd ym mis Mawrth 2022). Mae Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI) yn darparu canllawiau ar gyfer fferyllfeydd yng Ngogledd Iwerddon.
22. I gael rhagor o wybodaeth am ragnodi ar gyfer rhannu gofal gweler yr adnoddau a gyhoeddwyd gan [NHS England](#), [Canolfan Gwybodaeth am Feddyginiaethau Cymru, byrddau iechyd GIG yr Alban](#) ac [Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon](#).
23. Gweler astudiaeth [EQUIP \(Errors – Questioning Undergraduate Impact on Prescribing\)](#) ynghylch dirprwyo cyfrifoldeb yn amhriodol dros ysgrifennu crynodebau rhyddhau i staff iau heb hyfforddiant digonol mewn ffarmacoleg na gwybodaeth ddigonol am gleifion.
24. '[Raising and acting on concerns about patient safety](#)' (2012) Llundain, Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
25. Mae NHS Digital wedi cyhoeddi '[Identity Verification and Authentication Standard for Health and Care Digital, Data, Analytics and Technology Use](#)' (2025). Ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol, gweler y canllawiau a gyhoeddwyd gan Dîm Gofal Sylfaenol Digidol yn Gyntaf NHS England ac NHS Improvement. I gael arweiniad ar ddarparu gwasanaethau

iechyd rhywiol yn ddiogel ac yn briodol ar-lein ac o bell, cyfeiriwch at Safonau'r Gyfadran Iechyd Rhywiol Atgennedlu (FRSH) a Chymdeithas Prydain ar gyfer Iechyd Rhywiol a HIV (BASHH) [Standards for Online and Remote Providers of Sexual and Reproductive Health Services](#).

26. Dylech wneud y wybodaeth yn ddienw neu ei chodio, neu ofyn am ganiatâd, os yw hynny'n ymarferol. Os oes angen, darllenwch ein canllawiau esboniadol '[Confidentiality: good practice in handling patient information](#)' (2017) i gael rhagor o gyngor.
27. Rhaid i chi sicrhau bod digwyddiadau peryglus a damweiniau yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn unol â'r 'Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus' 1995. Rhaid i chi ddilyn gweithdrefnau lleol ar gyfer adrodd a dysgu o faterion tebyg.
28. Mae'r MHRA yn rhoi [canllawiau](#) i weithwyr gofal iechyd proffesiynol, cleifion a'r cyhoedd ar roi gwybod am ddigwyddiadau niweidiol gyda meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol i'r cynllun Cerdyn Melyn.
29. Gall meddyginiaethau a brechlynnau newydd sy'n cael eu monitro'n ychwanegol gael eu marcio â symbol triongl du pen i waered (▼). Mae'r symbol yn ymddangos yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF), crynodebau o nodweddion cynnyrch, taflenni gwybodaeth i gleifion a manau eraill.
30. Lanswyd y gwasanaeth LFPSE ym mis Gorffennaf 2021 ac mae wedi disodli'r System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu (NRLS) a gafodd ei datgomisiynu ar 30 Mehefin 2024. Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth LFPSE ar gael ar [NHS England](#).
31. Mae'r Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn darparu [canllawiau](#) manwl yn ei weithdrefn ar gyfer cofnodi a mynd ar drywydd digwyddiadau niweidiol difrifol yng Ngogledd Iwerddon.
32. Mae Healthcare Improvement Scotland yn darparu [canllawiau](#) ar reoli digwyddiadau niweidiol a gofynion adrodd.
33. Mae'r [MHRA](#) yn casglu data ar feddyginiaethau trwyddedig a didrwydded a geir drwy bresgripsiwn-yn-unig, o fferyllfeydd a thros y cownter.
34. Mae canllawiau'r MHRA ar gyflenwi a defnyddio meddyginiaethau didrwydded yn gyfreithlon wedi'u nodi yng nghyhoeddiad yr MHRA 'The supply of unlicensed medicinal products ("specials")', [MHRA Guidance Note 14](#).
35. Ni allwn ragweld pob amgylchiad lle gallai fod angen presgripsiynu meddyginiaeth didrwydded i ddiwallu anghenion asesedig claf penodol. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'r [MHRA](#) neu gofynnwch am gyngor cyfreithiol.
36. Mae rheoliad 174 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 yn caniatáu i'r MHRA (yr awdurdod trwyddedu) ganiatáu awdurdodiad dros dro ar gyfer cyflenwi cynnyrch meddyginiaethol didrwydded i'w ddefnyddio mewn ymateb i fathau penodol o fygythiad i iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys achosion a amheuir neu a gadarnhawyd o ledaeniad asiantau pathogenig, tocsinau, cyfryngau cemegol neu ymbelydredd niwclear.
37. Gall y [taflenni Meddyginiaethau i Blant](#) ar feddyginiaethau didrwydded, a gynhyrchir gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant/Pwyllgor Sefydlog y Grŵp Fferyllwyr Cynenedigol a Phediatrig ar Feddyginiaethau, fod yn ddefnyddiol wrth esbonio i blant a

rhieni pam mae ymarfer o'r fath yn gyffredin wrth ofalu am blant. Mae Cymdeithas Poen Prydain yn cyhoeddi ['Using medicines beyond licence: Information for patients'](#).

E-bost: [gmc@gmc-uk.org](mailto:gmc@gmc-uk.org)

Wefan: [gmc-uk.org](http://gmc-uk.org)

Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **ffoniwch 18001** yna **0161 923 6602** i

ddefnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun.

## Ymunwch â'r sgwrs



[@gmcuk](https://twitter.com/gmcuk)



[facebook.com/gmcuk](https://facebook.com/gmcuk)



[linkd.in/gmcuk](https://linkd.in/gmcuk)



[youtube.com/gmcuktv](https://youtube.com/gmcuktv)

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar [gmc@gmc-uk.org](mailto:gmc@gmc-uk.org).

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

© 2021 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint Cyngor Meddygol Cyffredinol dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/PRESCRIBING/0124